CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
MERTHYR TUDFUL

ADRODDIAD CYDRADDOLDEB BLYNYDDOL

2018-2019

Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

CYNNWYS

RHAGAIR ..... Tud 3

CYFLWYNIAD A CHEFNDIR…….....…...Tud 4

ASESU PERFFORMIAD - CRYNODEB O GYNNYDD YN ERBYN
CYFLAWNI AMCANION CYDRADDOLDEB CYNGOR ……..Tud 8

YMWYBYDDIAETH O'R GWEITHWYR …….....Tud 18

DATA'R GWEITHLU …….……..……Tud 19

CAFFAEL .....……Tud 20

MANYLION CYSWLLT .....……..Tud 21

RHAGAIR

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn falch o gyflwyno'r trydydd Adroddiad Blynyddol ar gyfer ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020. Paratowyd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn yn unol â gofynion Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 ac fe'i cymeradwywyd gan y Cyngor ar 23ain Mawrth 2016.

Trwy'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol mae'r Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol hwn ar gyfer 2018-2019 yn dyst i ymdrech barhaus y Cyngor i ddatblygu ei agenda cydraddoldeb a chyflawni ein Gweledigaeth Cydraddoldeb ar gyfer Merthyr Tudful, sef:

- Man lle mae amrywiaeth yn cael ei werthfawrogi a'i barchu a lle gall pawb gymryd rhan, ffynnu a chael y cyfle i gyflawni eu potensial yn rhydd rhag gwahaniaethu a rhagfarn.

Mae'r Cyngor yn gweithio tuag at gyflawni'r Weledigaeth hon drwy ein rôl fel arweinydd cymunedol, darparwr gwasanaeth, comisiynydd, cyflogwr a thrwy weithio mewn partneriaeth i leihau anghydraddoldebau a gwella lles y fwrdeistref sirol.

Rwy'n cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol hwn i chi ac yn edrych ymlaen at rannu'r cynnydd yr ydym yn ei wneud tuag at sicrhau tegwch mewn cydraddoldeb ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

Cynghorydd Kevin O'Neill
Arweinydd a Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 (y Ddeddf) yn dwyn ynghyd a disodli'r deddfau gwrth-wahaniaethu blaenorol mewn un Ddeddf. Mae'n symleiddio ac yn cryfhau'r gyfraith, yn dileu anghysonderau ac yn ei gwneud hi'n haws i bobl ddeall a chydymffurfio ag ef. Daeth mwyafrif y Ddeddf i rym ar 1af Hydref 2010.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus newydd (y 'ddyletswydd gyffredinol'), gan ddisodli'r dyletswyddau ar wahân blaenorol ar gydraddoldeb hil, anabledd a rhyw. Daeth hyn i rym ar 5ed Ebrill 2011.

Mae'r ddyletswydd gyffredinol newydd yn cwmpasu'r nodweddion gwarchodedig canlynol:

- Ailbennu Rhywedd
- Anabledd
- Beichiogrwydd a Mamolaeth
- Crefydd neu gred – gan gynnwys diffyg cred
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Hil – gan gynnwys tras ethnig neu genedlaethol, lliw na chenedligrwydd
- Oedran
- Priodas a Phartneriaeth Sifil
- Rhyw (Rhywedd)

Mae'n berthnasol i briodas a phartneriaeth sifil, ond dim ond mewn perthynas â'r gofyniad i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu.

Beth yw'r ddyletswydd gyffredinol?

Nod y ddyletswydd gyffredinol yw sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus a’r rhai sy’n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus yn ystyried sut y gallant gyfrannu’n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a chysylltiadau da yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae’r ddyletswydd yn sicrhau bod ystyriaethau yn cael eu cynnwys yng nghynllun polisïau a chyflawniad gwasanaeth a’u bod yn cael eu cadw dan arolwg. Bydd hyn yn sicrhau gwell deilliannau i bawb.

Wrth wneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau, rhaid i ni ystyried y canlynol:

- Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall y mae’r Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn ei wahardd
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy’n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a’r rhai nad ydynt.
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a’r rhai nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno.

Y Dyletswyddau Penodol yng Nghymru

Pwrpas cyffredinol y dyletswyddau penodol yng Nghymru yw helpu cyrff cyhoeddus wrth iddynt weithredu'n unol â'r ddyletswydd gyffredinol, ac i gefnogi tryloywder.

Mae'r dyletswyddau penodol wedi'u pennu gan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Daeth y dyletswyddau penodol yng Nghymru i rym ar 6ed Ebrill 2011.

Mae'r dyletswyddau penodol yng Nghymru yn ymwneud â'r canlynol:

- Amcanion
- Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol
- Ymgysylltu
- Asesu effaith
- Gwybodaeth gydraddoldeb
- Gwybodaeth gyflogaeth
- Gwahaniaethau cyflog
- Hyfforddiant staff
- Caffael
- Adroddiad blynyddol
- Cyhoeddi
- Adroddiadau gan Weinidogion Cymru
- Adolygiad
- Hygyrchedd

Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Roedd y dyletswyddau penodol yng Nghymru yn cynnwys gofyniad i gyrff rhestredig ddatblygu a chyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol bob pedair blynedd.

Fel rhan o'r adolygiad o Gynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor nodwyd bod Gweledigaeth Cydraddoldeb ar gyfer Merthyr Tudful yn hanfodol er mwyn nodi uchelgais y Cyngor i ddileu gwahaniaethu/aflonyddu, hyrwyddo cydraddoldeb a meithrin cysylltiadau da.

Mae'r Weledigaeth Cydraddoldeb ganlynol wedi cael ei datblygu ar gyfer Merthyr

Ein gweledigaeth ar gyfer cydraddoldeb ym Merthyr Tudful yw;

"Man lle y gwerthfawrogir ac y perchir amrywiaeth a lle y gall pawb gymryd rhan, ffynnu a chael y cyfle i gyflawni eu potensial yn rhydd rhag gwahaniaethu a rhagfarn."

Tudful.

Ategir y Weledigaeth hon gan y pedwar Amcan Cydraddoldeb canlynol (a restrir yn y tabl isod) a nodir yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor ar gyfer 2016-2020. Cymeradwywyd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2016-2020 gan y Cyngor ar y 23ain o Fawrth 2016.

Themâu	Amcanion Cydraddoldeb
Ymgysylltu Cymunedol	**Amcan Cydraddoldeb 1** Rhoi llais Dinasyddion wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau lleol fel bod eu cyfraniad yn cael ei ddeall, ei gydnabod a'i ddefnyddio i helpu'r Cyngor i ddeall ac ymateb i anghenion ei gymunedau.
Codi Ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb	**Amcan Cydraddoldeb 2** Cefnogi a hwyluso cyfleoedd hyfforddi a dysgu Cydraddoldeb fel bod staff ar bob lefel, Cynghorwyr a phartneriaid yn cydnabod ac yn ymgorffori Cydraddoldeb fel rhan o'u rôl.
Deall ein Staff a'n Cymunedau	**Amcan Cydraddoldeb 3** Datblygu systemau monitro cadarn i gasglu, coladu, monitro a chyhoeddi data cydraddoldeb ar ein gweithwyr a'n cwsmeriaid, a fydd yn helpu'r Cyngor i sicrhau ei fod yn darparu gwasanaethau teg a hygyrch.
Rhyw/Cyflog Cyfartal	**Amcan Cydraddoldeb 4** Sicrhau uniondeb o ran cyflog ar draws Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

Caiff yr Amcanion Cydraddoldeb hyn eu cyflawni drwy Gynllun Gweithredu a nodir yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2016-2020.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Gweledigaeth ac Amcanion Cydraddoldeb y Cyngor ar gyfer 2016-2020 yn cefnogi Amcanion Llesiant y Cyngor a'r saith Nod Llesiant (a ddangosir yn y diagram isod) ac yn cysylltu â'r pum ffordd o weithio (yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy) a nodir yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.



ASESU PERFFORMIAD CRYNODEB O'R CYNNYDD YN ERBYN CYFLAWNI AMCANION CYDRADDOLDEB Y CYNGOR

Mae'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni Amcanion Cydraddoldeb y Cyngor ar gyfer 2018-19 wedi bod fel a ganlyn:

Asesiad Effaith Integredig

Yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 datblygodd y Cyngor Asesiad Effaith Integredig (AEI). Mae'r AEI yn ymgorffori Amcanion Lles y Cyngor, egwyddorion Datblygu Cynaliadwy, Cydraddoldeb, yr iaith Gymraeg a Bioamrywiaeth, er mwyn cefnogi gwneud penderfyniadau effeithiol.

Mae'r Cyngor yn parhau i sicrhau ein bod yn mabwysiadu'r AEI ar gyfer prosiectau. Wrth weithredu newid sylweddol mae'r AEI yn sicrhau bod y Cyngor yn ystyried yr effaith y gallai penderfyniadau ei chael ar bobl a chymunedau Merthyr Tudful nawr ac yn y dyfodol.

Cynllun Llesiant Cwm Taf

Y llynedd, cyhoeddodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Cwm Taf Asesiad Llesiant pobl a chymunedau Cwm Taf. Wrth baratoi ar gyfer hyn, ymgynghorwyd â channoedd o bobl sy'n byw, yn gweithio ac yn defnyddio gwasanaethau cyhoeddus ar draws ardal Cwm Taf.

Ar ôl mwy na dwy flynedd o waith, lansiwyd Cynllun Llesiant Cwm Taf ar y 3ydd Mai 2018, gyda chyfranogiad y gymuned leol yn ganolog iddo.

Roedd y cynllun yn gweithio i gwmpasu'r saith nod lles, gan gynnwys nodau Cymunedau Cydlynus a Chymru fwy cyfartal. Mae hyn yn cynnwys cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau; yn benodol cryfhau'r gymuned i fynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd.

Mae'r cynllun hefyd yn anelu at ardal Cwm Taf i fod yn gymuned ddeniadol, hyfyw, ddiogel a chysylltiedig dda lle mae cymunedau'n cael negeseuon, cysylltiadau a chyfeiriadau cyson at gymorth cymunedol, sector cyhoeddus a busnes.

I ddechrau, cynhaliwyd Asesiad Llesiant, gan edrych ar asedau a heriau cymunedau Cwm Taf o ran eu llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol.

Wrth wrando ar y cymunedau, roedd nodi'r Amcanion Llesiant, a blaenoriaethu'r hyn y mae angen ei wneud i'w cyflawni er mwyn sicrhau bod y cynllun yn realiti, wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau.

Bydd gwaith yn dechrau datblygu ar gyflawni'r amcanion trawsbynciol sy'n cyflawni yn erbyn nodau Cymunedau Cydlynus a Chymru fwy cyfartal.

Mis Hanes LHDT

Codwyd baneri'r Enfys a Thrawsrywiol y tu allan i'r Ganolfan Ddinesig ar 18fed Chwefror 2019 er mwyn dathlu mis Hanes Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol (LHDT) ym mis Chwefror fel rhan o ymrwymiad y Cyngor i gefnogi ac ymgysylltu â'r gymuned LHDT+ ym Merthyr Tudful. Mynychwyd y digwyddiad gan y Maer, ein Haelod Seneddol lleol, ein Haelod Cynulliad lleol, Cynghorwyr a staff y Cyngor, Heddlu De Cymru ac aelodau o'r Cabinet Ieuenctid a Fforwm Ieuenctid Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

Gwnaethom hefyd godi ymwybyddiaeth o Fis Hanes LHDT+ gyda'r cyhoedd yn gyffredinol drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn hyrwyddo'r mis a'r seremoni codi baneri.

Diwrnod Rhyngwladol yn erbyn Homoffobia, Trawsffobia a Biffobia (IDAHOT)

Cynhaliwyd seremoni i godi baner LHDT ym Merthyr Tudful ar 17eg Mai 2018 i nodi IDAHOT (Diwrnod Rhyngwladol yn erbyn Homoffobia, Trawsffobia a Biffobia).

Roeddem hefyd yn bresennol yn Fforwm Pinc IRIS LHDTCRhA Mae'r grŵp hwn yn cael ei ffurfio o'r newydd ar ôl diddymu'r grŵp UDRh Gweladwy. Gan fod y grŵp newydd ddechrau'n annibynnol, rhoddwyd cymorth hefyd drwy'r Awdurdod Lleol a gan Brosiect Undod, sef grŵp LHDT+ Rhondda Cynon Taf.

Pride Cymru 2018

Roedd y Cyngor yn falch o fod yn rhan o Pride Cymru ym mis Awst yng Nghaerdydd, gan weithio gyda Chynghorau eraill o bob rhan o De Cymru i hyrwyddo cydraddoldeb i gymunedau LHDT+. Fel 'Cyngor Balch', ein nod oedd dangos ein hymrwymiad a'n cefnogaeth i'r gymuned LHDT+ yng Nghymru a ledled y byd.

Hefyd roeddem am ymgysylltu â'r gymuned LHDT+ i gael gwybod pa faterion sy'n bwysig iddynt. Aethom ati i gymryd rhan yn y digwyddiad drwy gael stondin ac annog ymwelwyr i drafod sut y gall cynghorau wella profiadau pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol lleol ledled De Cymru wrth ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus.

I ddathlu'r digwyddiad hwn codwyd baner yr Enfys y tu allan i'r Ganolfan Ddinesig ar yr un diwrnod â Pride Cymru.

Diwrnod Coffa Trawsrywiol

Ar gyfer Diwrnod Coffa Trawsrywiol ar 20fed Tachwedd a Diwrnod Gweleded Trawsrywiol Rhyngwladol ar 31ain Mawrth, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi ymrwymo i gefnogi aelodau staff, defnyddwyr gwasanaeth a phobl ifanc traws i sicrhau nad ydynt yn teimlo eu bod yn cael eu gwahaniaethu yn eu lle gwaith, eu cymunedau neu pan gael mynediad at wasanaethau.

Pecyn Cymorth a Chanllaw Cynhwysiant Trawsrywiol

Datblygodd Cyngor Merthyr Tudful Becyn Cymorth a Chanllaw Cynhwysiant Trawsrywiol, gan weithio mewn partneriaeth â Chyngor Bro Morgannwg. Nod y Pecyn Cymorth a'r Canllawiau yw cefnogi plant a phobl ifanc trawsrywiol a'r rhai sy'n cwestiynu'u rhywedd, ac felly'n cynnig cyfle i godi ymwybyddiaeth o hunaniaeth o ran rhywedd a rhoi cymorth ac arweiniad i greu addysg gadarnhaol a chynhwysol ar yr un pryd.

Mae'n becyn cymorth gwerthfawr i bob aelod o staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu holi mewn ffordd briodol, gyson a chyfartal.

Mae'r Pecyn Cymorth a'r Canllawiau hyn yn parhau i alluogi ysgolion i ddatblygu polisi ac ymarfer ysgol gyfan ymhellach a fydd yn caniatáu i blant a phobl ifanc trawsrywiol a'r rhai sy'n cwestiynu'u rhywedd i gyflawni yn yr ysgol.

Grŵp Lleiafrifoedd Ethnig

Rydym wedi cynnal cyfarfodydd gyda'r Tîm Cymorth i Leiafrifoedd Ethnig a Chymorth Ieuenctid Cymru (sef EYST) i edrych ar sefydlu grŵp Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig i Gwm Taf. Mae EYST yn fudiad gwirfoddol sydd wedi ennill gwobrau ac a sefydlwyd i gefnogi pobl o leiafrifoedd ethnig yng Nghymru. Rydym yn gweithio'n agos gydag EYST i ddechrau ymarfer ymgynghori gyda myfyrwyr Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a thrigolion Cwm Taf, gyda'r posibilrwydd o ddatblygu'r grŵp lleol.

Insport

Mae'r gwaith o ddatblygu cyflwyniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ar gyfer Safon Aur Insport wedi parhau drwy gydol 2018-19. Hyd yma, ni yw'r unig awdurdod lleol sydd wedi mynychu cyn-banel Safon Aur Insport Chwaraeon Anabledd Cymru er mwyn amlinellu'r meysydd blaenoriaeth fel rhan o'r cyflwyniad. Mae'r rhain yn cynnwys datblygu rolau hyfforddi a gwirfoddoli ar gyfer pobl anabl a datblygu cyfleoedd newydd i oedolion.

Mae Fforwm Chwaraeon Anabledd Merthyr wedi parhau i ddatblygu dros 2018-19. Ar hyn o bryd mae 15 o aelodau anabl yn gwirfoddoli i gymryd rhan mewn digwyddiadau, sesiynau ac mewn cyfarfodydd datblygu rheolaidd. Mae'r fforwm hefyd wedi llwyddo i gael arian grant er mwyn datblygu prosiectau newydd. Yn ogystal, cwblhaodd 7 o'r aelodau raglen gyflogadwyedd gyda Sefydliad Cymunedol Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe.

Parhawyd i dreialu'r rhaglen addysg Insport, gyda 3 ysgol leol yn gweithio'u ffordd drwy'r cynllun. Ar hyn o bryd, ni yw'r unig awdurdod lleol yng Nghymru i redeg y rhaglen.

Mae perthynas waith agos yn parhau i gael ei ffurfio gyda'r Bwrdd Iechyd, yn enwedig gydag adrannau Pediatrig Therapi Galwedigaethol a Physiotherapi. Mae proses atgyfeirio gadarn ar waith sy'n gweld cyfranogwyr anabl yn cael eu hatgyfeirio'n ffurfiol at ymyriadau chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

Y Gymraeg

Yn 2018 lansiodd y Cyngor fenter newydd o'r enw ymgyrch #Shwmaeronment sy'n ymwneud ag annog y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle a'r gymuned ehangach. Y prif nod yw i bobl ddechrau defnyddio gwahanol eiriau ac ymadroddion Cymraeg gyda'i gilydd mewn 'amgylchedd dwyieithog unigryw'. Fel rhan o'r fenter anogwyd ysgolion yn y fwrdeistref sirol i gymryd rhan mewn cystadleuaeth i helpu'r lansiad. Gofynnwyd i'r disgyblion ddylunio logo ar gyfer #Shwmaeronment a datblygwyd y cais buddugol yn logo swyddogol a ddefnyddiwyd mewn posteri a llenyddiaeth arall a arddangoswyd ar draws Merthyr Tudful.

Fel rhan o raglen gwella parhaus Gymraeg y Cyngor datblygwyd prosiect siopwr cudd mewn partneriaeth â Menter Iaith Merthyr Tudful, i asesu’n annibynnol darpariaeth y Cyngor o wasanaethau Cymraeg. Fe'i cynhaliwyd rhwng Chwefror a Mawrth 2019. Bydd unrhyw feysydd i'w gwella a nodir yn y canfyddiadau yn cael eu defnyddio i lywio Rhaglen Gymraeg y Cyngor ar gyfer 2019-2020 a thu hwnt.

Datblygwyd cwrs hyfforddiant ffôn a chyfarch cwsmeriaid ar gyfer y Gymraeg gyda'r nod o uwchsgilio staff y Cyngor Bwrdeistref Sirol i gefnogi'r ddarpariaeth o wasanaethau Cymraeg i gymunedau Merthyr Tudful. Yn ystod 2017-2018 derbyniodd dros 75 o aelodau staff rheng flaen hyfforddiant, ac yn ystod 2018-2019 cafodd dros 40 o aelodau hyfforddiant gloywi.

Mae'r Cyngor yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Dysgu Cymraeg Morgannwg/Learn Welsh Glamorgan i ddarparu cyfleoedd hyfforddiant ar gyfer staff a chynghorwyr. Mae naw aelod o staff wedi llwyddo i ennill Tystysgrif Mynediad CBAC mewn Cymraeg Ail Iaith. Ar hyn o bryd mae gan y Cyngor 25 aelod o staff yn dysgu Cymraeg yn y gweithle.

Rydym hefyd yn parhau i ddarparu cyfleoedd cymdeithasol parhaus i ddysgwyr wrando ac ymarfer eu Cymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys cynnal boreau coffi, digwyddiadau Nadoligaidd a mynychu digwyddiadau iaith Gymraeg fel "Llwybrau Llafar" yn Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan. Mae dosbarth Cymraeg cymunedol wythnosol hefyd wedi ei sefydlu yn Heolgerrig, Merthyr Tudful.

Mae gwasanaeth iaith Gymraeg y Cyngor a Merthyr Tudful Actif yn parhau i weithio mewn partneriaeth i gefnogi Prosiect Prentis Datblygu Chwaraeon yr Urdd. Pwrpas y prosiect yw i'r Gymraeg barhau i ddod yn fwy cyffredin yn y gymuned drwy ddarparu cyfleoedd chwaraeon i bobl ifanc drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn 2018/19, mae rhai o’r datblygiadau allweddol yn cynnwys rhedeg pump o glybiau ar ôl ysgol, pum clwb cymunedol a chlwb tenis haf.

Mae Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor Iunio Adroddiad Blynyddol, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n ymdrin â'r ffordd y mae

wedi cydymffurfio â'r gwaith o Ddarparu Gwasanaethau, Llunio Polisi a Safonau Gweithredol.

Gellir dod o hyd i Adroddiad Monitro Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2018-2019 ar wefan y Cyngor.

Sipsiwn/Teithwyr

Mae Swyddog Sipsiwn/Teithwyr wedi'i benodi o fewn CBS Merthyr Tudful fel rhan o'r Tîm Diogelwch Cymunedol. Eisoes mae gwaith wedi dechrau ar ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer safle Sipsiwn a Theithwyr Glynmil i gefnogi'r trigolion. Mae Grwpiau Llywio Sipsiwn/Teithwyr yn mynd i gael eu sefydlu hefyd.

Cynhaliwyd Ymweliad Gweinidogol Sipsiwn/Teithwyr ar safle Glynmil ym Merthyr Tudful ar 18fed Hydref 2018. Bu cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru a CBS Merthyr Tudful yn trafod gwaith sydd wedi'i wneud yn ddiweddar a materion yn ymwneud â pherchnogaeth ar y safle.

Roedd y Prosiect Chwarae Sipsiwn/Teithwyr ym Merthyr Tudful yn fenter a sefydlwyd mewn partneriaeth rhwng Gwasanaethau Chwarae a Seibiannau Byr Torfaen a Merthyr Tudful. Gwnaed cytundeb i gomisiynu Gwasanaeth Chwarae Torfaen i ddarparu 6 Sesiwn Chwarae i'r Teulu a chynllun chwarae 4 diwrnod ar Safle Glynmil. Nod y sesiynau chwarae i deuluoedd oedd ymgysylltu â rhieni a'u plant ar y safle drwy chwarae a chreu lle cymdeithasol i deuluoedd gyfarfod, lle byddent yn cael eu cefnogi gan dîm o weithwyr chwarae. Roedd nifer o'r plant yn defnyddio'r sesiynau chwarae, ond roedd yn fwy anodd ymgysylltu â'r rhieni.

Cynhaliwyd pedwar diwrnod o gynlluniau chwarae ar y safle hefyd. Rhedodd y prosiect yn rhedeg o’r 26ain Chwefror 2019 i’r 1af o Fawrth 2019. Roedd pob sesiwn yn rhedeg am 4 awr rhwng 11am a 3pm. Roedd 8 o blant yn cymryd rhan ar gyfartaledd bob dydd, ac roedd rhai rhieni'n ymuno yn y gweithgareddau ac yn aros am amser byr bob dydd i holi eu plant. Roedd yr adborth o'r sesiynau yn gadarnhaol ac mae llawer o rieni a phlant yn gobeithio am fwy o sesiwn yn y dyfodol.

Cymunedau dros Waith a Mwy

Cyfarfuom â thimau newydd Cymunedau dros Waith a Mwy i sefydlu cysylltiadau â'n haelodau mwyaf bregus yn y gymuned ac i gynorthwyo pawb sy'n ceisio cael gwaith.

Ymfudwyr

Rydym yn parhau i fonitro anghenion unrhyw fudwyr economaidd o fewn y gymuned, yn enwedig o ran y goblygiadau posibl o Brexit. Rydym yn parhau i fonitro tueddiadau mewnfudo, a chynhaliwyd trafodaethau ynghylch goblygiadau Brexit a'r hawl i aros.

Rydym hefyd yn parhau i weithio'n agos gyda sefydliadau partner, yn enwedig y Swyddogion Troseddau Casineb lleol, i fonitro unrhyw densiynau posibl yn y gymuned.

Mynychwyd Cynhadledd Safwn Gyda'n Gilydd ar y 21ain Mawrth 2019 o amgylch undod ymysg cymunedau amrywiol yng nghyd-destun Brexit.

Gan weithio gyda phrosiect cefnogi cynllun grant dinasyddion yr UE Llywodraeth Cymru, cyflwynwyd hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o gynllun setliad yr UE Brexit i staff y Cyngor. Mynychodd staff o wahanol wasanaethau ar draws y Cyngor yr hyfforddiant, gan gynnwys Cofrestryddion, Adnoddau Dynol, Tai a Chefnogi Pobl, Gwasanaethau Cymdeithasol, Budd-daliadau, Refeniw, Asesiad Ariannol, Grantiau a Gwasanaethau Cwsmeriaid. Rhoddodd yr hyfforddiant gipolwg ardderchog ar oblygiadau'r Cynllun Setliad a sut y mae'n effeithio ar ddinasyddion sy'n byw ym Merthyr Tudful.

Mae tudalennau gwybodaeth ar oblygiadau Brexit i ddinasyddion yr UE wedi'u sefydlu ar dudalennau gwefan y Cyngor.

Hiliaeth

Ar 19eg Hydref 2018, gofynnwyd i ddisgyblion ysgol ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i wisgo coch er mwyn cefnogi'r elusen addysg gwrth-hiliaeth 'Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth Cymru', ac i godi arian ar gyfer y Diwrnod Gwisgo Coch. Cafodd y disgyblion gyfle hefyd i geisio fel rhan o gystadleuaeth greadigol. Roedd yn ffordd o annog pobl ifanc i ymddiddori mewn gwrth-hiliaeth a rhoi cyfle i'r disgyblion fynegi eu teimladau am hiliaeth a dangos eu gwaith.

Dros fisoedd yr haf yn 2018 cafwyd rhai adroddiadau am graffiti hiliol ym Mharc Sglefrio Rhyd-y-car ym Merthyr Tudful. Yn hytrach na phaentio dros y graffiti mor fuan â phosibl, penderfynodd yr Awdurdod Lleol a sefydliadau partner, gan gynnwys y Tîm Troseddau Ieuenctid, gynnal digwyddiad ymgysylltu gyda'r bobl ifanc. Fel rhan o'r ymgysylltu hwn, gweithiodd artist proffesiynol gyda chyfanswm o 53 o bobl ifanc sy'n defnyddio'r parc yn rheolaidd i orchuddio rampiau'r parc sglefrio â graffiti priodol. Daeth y dyluniadau a'r syniadau oddi wrth y bobl ifanc eu hunain ac wrth wneud hyn, cawsant ymarfer dysgu ac addysgu yn siarad am graffiti hiliol.

Trosedd Casineb

Daeth Swyddog Troseddau Casineb newydd i'r swydd ym mis Awst 2018. Mae cysylltiadau eisoes wedi'u sefydlu ar gyfer gweithio'n agos mewn partneriaeth.

Mynychwyd cyfarfodydd misol y Grŵp Adolygu Troseddau Casineb gyda Heddlu De Cymru a sefydliadau partner i drafod yr holl Gynlluniau Gweithredu ar Droseddau Casineb sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd yng Nghwm Taf.

Ar gyfer Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb ym mis Hydref, gweithiodd Cydlynydd Cydlyniant Cymunedol Cwm Taf yn agos gyda'r Swyddog Cydlyniant yng

Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Heddlu De Cymru i gynnal amserlen ymgysylltu wythnos o hyd gan dargedu nifer o fusnesau, canolfannau hamdden ac ysgolion. Cynhaliwyd cyfanswm o 26 o ddigwyddiadau ar draws Cwm Taf. Cymerodd cyfanswm o 830 o drigolion ran yn ein harolwg, ac ymgysylltwyd â nifer llawer mwy heb ei gofnodi ar sail fwy anffurfiol. Darparwyd slot amser gwych hefyd ar yr orsaf radio leol GTFM am eu sioe adeg gyrru lle y bu swyddogion lleol yn trafod Troseddau Casineb a sut i'w adrodd.

Roedd Heddlu De Cymru hefyd yn cael defnyddio'r 'Car Balchder' a gymerwyd i bedwar digwyddiad gwahanol ar draws Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful. Cafwyd diddordeb mawr gan aelodau'r cyhoedd a lefelau uwch o ymwybyddiaeth o adrodd am droseddau casineb.

Uchafbwynt yr wythnos oedd cynnal digwyddiad ar y teledu yng Nghlwb Rygbi Pontypridd gyda chwaraewyr a masgotiaid yn dal y faner 'Cael eich Clywed'. Roedd y clwb hefyd yn darparu erthyglau wedi eu hargraffu yn eu rhaglenni yn esbonio beth yw trosedd casineb a sut i adrodd amdano. Er ei bod yn amhosib meintioli nifer y bobl a gyrhaeddodd yr erthygl, daeth cannoedd o bobl i'r gêm a darparwyd rhaglen i bob person.

Rydym yn parhau i fynychu cyfarfodydd misol troseddau casineb mewn partneriaeth â Heddlu De Cymru lle mae pob digwyddiad/trosedd casineb yn cael eu trafod.

Cynhaliwyd nifer o Ddiwrnodau Gweithredu Diogelwch Cymunedol Troseddau Casineb ac Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol ar draws Cwm Taf mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Heddlu De Cymru. Roedd y diwrnodau ymgysylltu hyn yn hyrwyddo'r Cylchlythyr 'Patrol y Bobl' newydd. Mae'r cylchlythyr wedi'i gynllunio ar gyfer unrhyw un sydd â diddordeb mewn digwyddiadau cyfredol sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ac unrhyw droseddau sy'n effeithio ar ein cymunedau. Mae'r cylchlythyr hwn yn caniatáu i Dimau Diogelwch Cymunedol y Cyngor, Heddlu De Cymru a Gwasanaethau Tân ac Achub De Cymru wneud preswylwyr a pherchnogion busnes yn fwy ymwybodol o faterion fel atal troseddu, materion diogelwch/cydlyniant cymunedol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a sut y gellir rhoi gwybod am broblemau.

Yn ogystal, bydd y system e-bost hefyd yn galluogi asiantaethau partner fel yr Heddlu i allu e-bostio tanysgrifwyr ar unwaith i'w gwneud yn ymwybodol o unrhyw droseddau/materion sy'n digwydd yn yr ardal a allai effeithio arnynt.

Gwrth-fwlio

Ar gyfer Wythnos Gwrth-fwlio, ar 15fed Tachwedd, cynhaliwyd digwyddiad yn Y Coleg, Merthyr Tudful a oedd yn cynnwys cyflwyniadau a gweithdai ar themâu yn cynnwys camddefnyddio sylweddau, gwrth-fwlio, materion ôl Brexit ac amrywiaeth.

Mynychodd disgyblion o ysgolion uwchradd Merthyr Tudful ac 19 o ysgolion cynradd y gynhadledd. 'Lles a Gwydnwch' oedd y thema. Cynhaliodd Cydlynydd Cydlyniant

Cymunedol Cwm Taf a Swyddog Sipsiwn/Teithwyr y Cyngor weithdy yn ymwneud â bwlio sy'n gysylltiedig â chasineb, yn enwedig o ran Sipsiwn/Teithwyr.

Hawliau Dynol

Daeth swyddogion o Gyngor Merthyr Tudful i gynhadledd flynyddol y Gyfnewidfa Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar 19eg Mehefin 2018 yn Stadiwm Dinas Caerdydd. Nod y digwyddiad oedd edrych ar sut i fynd i'r afael â thrais ar sail hunaniaeth, beth yw ein cyfrifoldeb ni ar gyfer mynd i'r afael â'r her o ganfod trais ar sail hunaniaeth a sut y gallwn wneud gwahaniaeth er mwyn gwella gwasanaethau a'r gweithlu ar gyfer pobl sy'n profi trais ar sail hunaniaeth.

Fforwm 50+

Mynychwyd y Fforwm 50+ ar 6ed Medi 2018 yn Eglwys y Bedyddwyr High Street ym Merthyr Tudful. Canolbwyntiodd y digwyddiad ar fynd i'r afael ag unigrwydd a chynnwys y gymuned, a rhoddodd y digwyddiad gyfle rhwydweithio da i'r rhai oedd yn bresennol. Mae'r fforwm wedi'i gynllunio i gynrychioli hawliau a barn pobl 50+ oed ar draws y Fwrdeistref Sirol, ac i ymgynghori a rhoi gwybodaeth am faterion sydd o ddiddordeb iddynt. Rhoddwyd gwybodaeth a chyngor gan y Tîm Diogelwch Cymunedol yn ogystal â grwpiau a sefydliadau cynhwysiant niferus o bob rhan o Ferthyr Tudful.

Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog

Mae gan Ferthyr Tudful hanes balch o werthfawrogi ei wasanaethau arfog, y rhai sy’n gwasanaethu a’r rhai sydd wedi ymddeol. Bod yn rhan o Gyfamod y Lluoedd Arfog yw ein hymrwymiad i gefnogi Personél y Lluoedd Arfog a'u teuluoedd mewn nifer o feysydd fel addysg, lles, gofal iechyd, cyflogaeth, tai a chymorth ariannol.

Mae Swyddog Cynghori Cyn-filwyr wedi bod yn ei swydd ers Ionawr 2019, ac maent yn cefnogi Cynghorau Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf.

Mae'r Swyddog Cynghori Cyn-filwyr yn mynd ati i fynychu grwpiau cyn-filwyr yn ardal Cwm Taf. Rydym wedi cael adborth gwerthfawr gan gyn-filwyr ac felly mae amserlen wedi'i diweddaru ar gyfer cymorthfeydd cynghori galw heibio yn RhCT.

Datblygwyd perthynas dda â sefydliadau allweddol fel SSAFA (elusen y lluoedd arfog), y Lleng Brydeinig Frenhinol a Change Step sy'n cynnig cymorth i gyn-filwyr, eu teuluoedd a'u gofalwyr yng Nghymru – i gael gafael ar wasanaethau cymorth hanfodol ac i fynd i'r afael â straen difrifol a materion cysylltiedig.

Cynhelir cyfarfodydd chwarterol rhyngom ni ac awdurdodau lleol cyfagos i rannu arferion da a syniadau.

I ymgysylltu â chymaint o gyn-filwyr â phosibl ac i godi ymwybyddiaeth o wasanaethau, mae taflenni marchnata wedi'u dosbarthu ledled Cynghorau

Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf. Rydym wedi creu gwe-dudalennau Cyfamod y Lluoedd Arfog ar wefan y Cyngor sy'n rhoi rhagor o wybodaeth am y gwasanaethau rydym yn eu darparu i bersonél y lluoedd arfog, yn ogystal â gwasanaeth cynghori cyn-filwyr sy'n darparu cyngor a chymorth am ddim. Mae Gwasanaeth Cynghori Cyn-filwyr yn cael ei hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol.

Rydym yn parhau i gynnig nofio am ddim i bersonél y lluoedd arfog a chyn-filwyr yn ein dwy ganolfan hamdden. Hefyd mae bore coffi deufisol yn parhau i gael ei gynnal yng Nghanolfan Hamdden Merthyr Tudful.

Ysbrydoli i Weithio

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, fel yr awdurdod arweiniol, ynghyd â chynghorau cyfagos eraill wrth ddatblygu'r prosiect gwaith Ysbrydoli i Weithio.

Mae Ysbrydoli i Weithio yn brosiect sy'n gweithio gyda phobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant. Rydym yn darparu cymorth i wella hyder, hunan-barch a'u gallu i weithio fel rhan o dîm trwy fentora, cyngor, cyfarwyddyd a chynllunio gyrfa.

Diwrnod Cofio'r Holocost

Ar gyfer Diwrnod Cofio'r Holocost cynhaliwyd digwyddiad yn Llyfrgell Treorci ar 31ain Ionawr 2019 ar y cyd â staff CBS Rhondda Cynon Taf a staff y Llyfrgell. Roedd y digwyddiad hwn yn agored i aelodau'r cyhoedd a phlant ysgolion lleol.

Yn y digwyddiad, cafwyd cyflwyniadau gan ddisgyblion o Ysgol Gyfun Treorci. Cawsom hefyd gerddi a straeon goroesiad a ddarllenwyd gan gynghorwyr lleol, gweithwyr y cyngor a'r timau heddlu lleol. Goleuwyd cannwyll wrth gofio yn ystod y gwasanaeth.

Dathlwyd Diwrnod Cofio'r Holocost ym Merthyr Tudful ar 27ain Ionawr 2019 gyda gorymdaith yn cychwyn yn y ffynnon ym Merthyr Tudful, trwy'r dref, yna'n gorffen yng Ngardd Goffa'r Holocost. Yna, gosodwyd torchau yn yr ardd cyn i bawb wneud eu ffordd i Eglwys Dewi Sant ar gyfer y gwasanaeth coffa blynyddol. Roedd tua 150 o fynychwyr. Yn y cyfnod cyn Diwrnod Cofio'r Holocost, bu'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn ymweld â nifer o ysgolion a grwpiau sgowtiaid i hyrwyddo neges Diwrnod Cofio'r Holocost.

Hawliau Plant (CCUHP)

Ym mis Gorffennaf, daeth Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair yr ysgol gyntaf ym Merthyr Tudful i ennill gwobr genedlaethol bwysig i blant. Mae'r ysgol wedi derbyn Gwobr Aur UNICEF ar gyfer Ysgolion sy'n Parchu Hawliau - yr acolâd uchaf posibl a

ddyfarnwyd gan yr elusen - i gydnabod ei chyflawniad wrth roi Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) wrth galon y cynllunio, polisïau, arfer ac ethos yr ysgol.

Diwrnod Rhuban Gwyn

Bu Diwrnod y Rhuban Gwyn ar y 25ain Tachwedd – sef y diwrnod rhyngwladol o ran dileu trais yn erbyn menywod. Cynhaliodd ysgolion lleol rai gweithgareddau o gwmpas y rhuban gwyn gyda'u disgyblion. Ynghyd â bathodynnau rhuban gwyn a thlysau crog ar gael i'w prynu yn y Ganolfan Ddinesig.

Diwrnod Rhyngwladol Syndrom Down

Cynhaliwyd Diwrnod Rhyngwladol Syndrom Down ar 21ain Mawrth 2019, sy'n ddiwrnod ymwybyddiaeth fyd-eang. I ddangos cefnogaeth anogwyd staff a chynghorwyr y Cyngor i gymryd rhan yn yr ymgyrch 'Llawer o Hosanau' lle gofynnwyd iddynt wisgo eu hosanau mwyaf lliwgar, doniol neu od er mwyn casglu rhoddion i Gymdeithas Syndrom Down.

Taflenni Ffeithiau Nodweddion Gwarchodedig

Mae'r Cyngor yn parhau i ddarparu gwybodaeth am y nodweddion gwarchodedig i staff ar ffurf taflenni ffeithiau. Mae'r taflenni ffeithiau yn gwella gwybodaeth am faterion cydraddoldeb fesul nodwedd warchodedig, yn gwella dealltwriaeth o'n cwsmeriaid ac yn hyrwyddo cydraddoldeb yn y gweithle.

Mae'r taflenni ffeithiau ar gael ar fewnrwyd y Cyngor i staff eu defnyddio ac fe'u defnyddir mewn unrhyw hyfforddiant cydraddoldeb ar gyfer staff a chynghorwyr yn y dyfodol.

YMWYBYDDIAETH GWEITHWYR

Mae gwybodaeth am y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ar gael ar Fewnrwyd a Rhyngrwyd y Cyngor.

Mae'r Cyngor wedi nodi'r Amcan Cydraddoldeb canlynol fel rhan o'i Gynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2016-2020, a fydd yn helpu'r Cyngor i barhau i godi ymwybyddiaeth am Gydraddoldeb:

- Cefnogi a hwyluso hyfforddiant a chyfleoedd dysgu am Gydraddoldeb fel bod staff ar bob lefel, cynghorwyr a phartneriaid yn cydnabod ac yn ymgorffori cydraddoldeb fel rhan o'u rôl.

Hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Mae Hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol Parhaus yn elfen allweddol o Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cyngor ar gyfer Arfarniadau Perfformiad a chyfarfodydd Un-i-Un. Mae hyn yn golygu bod modd nodi a mynd i'r afael ag anghenion hyfforddi gweithwyr ar gyfer Cydraddoldeb.

DATA’R GWEITHLU

Mae'r Cyngor wedi nodi'r Amcan Cydraddoldeb canlynol fel rhan o'i Gynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2016-2020, sy'n cynorthwyo'r Cyngor i ddeall proffil ei weithwyr:

- Datblygu systemau monitro cadarn i gasglu, coladu, monitro a chyhoeddi data cydraddoldeb ar ein gweithwyr a'n cwsmeriaid, a fydd yn helpu'r Cyngor i sicrhau ei fod yn darparu gwasanaethau teg a hygyrch.

Mae Data’r Gweithlu ar gyfer y Cyngor ar 31ain Mawrth 2019 ynghlwm fel Atodiad A.

CAFFAEL

Mae'r Cyngor o'r farn ei bod yn hanfodol bod pob sefydliad sy'n dymuno darparu nwyddau neu wasanaethau ar ei ran yn gallu dangos y cymerir pob cam rhesymol ac ymarferol i ganiatáu mynediad cyfartal a thriniaeth gyfartal mewn cyflogaeth, darparu gwasanaethau a hyfforddiant i bawb.

Mae'r Cyngor yn defnyddio'r Ddogfen Gaffael Sengl Ewropeaidd wedi'i chyfuno â chwestiynau priodol am gymwysterau cyflenwyr, ac mae wedi ychwanegu ei gwestiynau penodol ei hun sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb iddi. Mae templedi arferol Gwahoddiad i Dendro'r Cyngor yn cynnwys datganiad cydraddoldeb penodol sy'n cynnwys cymalau contract yn ymwneud â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Ychwanegir cymalau sy'n ymwneud â Chydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg at ei delerau ac amodau safonol ar gyfer contractau pan fo angen.

Mae'r Cyngor yn ategu egwyddorion Datganiad Polisi Caffael Cymru (DPCC) 2015 a'i ddeg prif thema drwy strategaeth gaffael sy'n addas i'r diben sy'n darparu cyfeiriad a chydlyniad strategol i gydymffurfio â blaenoriaethau corfforaethol a'r DPCC. Mae'r DPCC yn cynnwys themâu fel effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, manteision cymunedol a chystadleuaeth agored, hygyrch.

Mae elfennau Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg yn y broses gaffael o ran Dogfennaeth Tendro a Chais am Dyfynbris wedi'u hadolygu yn unol â Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae'r dogfennau hyn yn cynorthwyo'r Cyngor i sicrhau bod pob cyflenwr trydydd parti yn dangos ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion hyn, lle bo'n berthnasol i natur a math y nwyddau a'r gwasanaethau a ddarperir ar ei ran.

Mae'r Cyngor yn llofnodwr y Cod Ymarfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi. Mae Caethwasiaeth Fodern, Rhestr Ddu ac Arferion Cyflogaeth wedi'u hymgorffori yn yr holiaduron cam Cyn Cymhwyso / Dewis ar gyfer yr holl weithgaredd tendrau cymwys.

GWYBODAETH GYSWLLT

Rydym yn croesawu sylwadau ar yr adroddiad ac os hoffech wybod mwy am y gwaith y mae'r Cyngor yn ei wneud, defnyddiwch y manylion cyswllt isod:

Cydraddoldeb

Y Ganolfan Ddinesig

Stryd y Castell

Merthyr Tudful

CF47 8AN

Rhif Ffôn: 01685 725000

equality@merthyr.gov.uk

Mae'r adroddiad ar gael yn Saesneg.

I wneud cais, defnyddiwch y manylion cyswllt uchod.

Nifer y Staff

Parhaol	Cyfnod Penodol	Llawn-amser	Rhan-amser
1821	411	1281	1016

Oed

16-34	35-54	55-64	65 a hŷn	CYFANSWM
574	1288	404	31	**2297**

Anabledd

Byddar/Drwm eu Clyw	Anawsterau lechyd Meddwl	Nam Symudedd	Nam ar y Clyw	Salwch Hirdymor	Nam ar y Golwg
13	7	8	3	44	4

Arall	Dim Anabledd	Dewis peidio ag ateb/Anhysbys	CYFANSWM
16	1880	322	**2297**

Rhyw

Gwryw	Benyw	CYFANSWM
572	1725	**2297**

Cyfeiriadedd Rhywiol

Menyw Hoyw/Lesbiaid	Dyn Hoyw	Deurywiol	Heterorywiol/Syth	Arall	Dewis peidio ag ateb/Anhysbys	CYFANSWM
12	15	2	1919	0	349	**2297**

Crefydd

Cristnogaeth	Dim Crefydd	Bwdhaeth	Iddewiaeth	Islam	Hindŵaeth	Arall	Dewis peidio ag ateb/Anhysbys	CYFANSWM
689	869	4	1	4	1	138	591	**2297**

Ethnigrwydd

Gwyn Prydeinig	Gwyn Arall	Asiaidd	Du Caribïaidd	Du Affricanaidd	Hil Gymysg	Dewis peidio ag ateb/Anhysbys	CYFANSWM
1919	23	10	1	21	1	322	**2297**

Mamiaith

Saesneg	Cymraeg	Malteg	Pwyleg	Almaeneg	Portiwgaleg	Ffrangeg
1527	35	1	9	1	1	1

Sbaeneg	Ffilipino	Thai	Dewis peidio ag ateb/Anhysbys	CYFANSWM
1	1	1	719	**2297**

Proffil Pobl - Cyflog

Cyflog	Pob Staff			
	Gwryw		**Benyw**	
	Llawn-amser	**Rhan-amser**	**Llawn-amser**	**Rhan-amser**
£0 - £4,999	0	26	0	444
£5,000 - £9,999	0	20	0	190
£10,000 - £14,999	7	39	2	279
£15,000 - £19,999	40	37	24	334
£20,000 - £24,999	145	4	99	57
£25,000 - £29,999	82	3	114	22
£30,000 - £39,999	123	6	301	23
£40,000 - £49,999	39	0	45	2
£50,000 - £59,999	10	0	17	0
£60,000 - £69,999	15	0	17	0
£70,000+	8	0	2	0
Wedi Cyfrifo: Cyfanswm nifer y cyflogau	469	135	621	1351
CYFANSWM	**938**	**270**	**1242**	**2702**

DS - mae'r ffigurau'n cynnwys staff sydd â mwy nag un swydd

Ceisiadau am Swyddi

O ran nifer y staff a ymgeisiodd am swydd yn fewnol yn y Cyngor, cawsom 242 o geisiadau mewnol, gyda 78 ohonynt yn ddynion a 164 yn fenywod.

O ran ymgeiswyr allanol, derbyniodd y Cyngor 1,230 o geisiadau allanol, gyda 296 ohonynt gan ddynion a 934 gan fenywod.

	Nifer y cyflogeion sy'n gysylltiedig â'r weithdrefn achwyniad				
Y Nodweddion Gwarchodedig	Fel yr achwynydd	Person y gwnaed achwyniad yn ei erbyn	Nifer y cyflogeion a oedd yn destun gweithdrefnau disgyblu	Nifer y gweithwyr sydd wedi gadael yr awdurdod	Nifer y staff sydd ar gyfnod Absenoldeb Mamolaeth
Oed	**2**	**1**	**24**	**211**	**46**
16-34	0	0	5	69	28
35-54	1	1	14	77	18
55-64	1	0	5	48	0
65 a hŷn	0	0	0	17	0
Rhyw	2	1	24	**211**	**46**
Gwryw	2	1	9	55	0
Benywaidd	0	0	15	156	46
Anabledd	0	0	0	**211**	**46**
Anabledd	0	0	0	13	1
Heb fod yn anabl	0	0	0	176	41
Dewis peidio ag ateb/Anhysbys	0	0	0	22	4
Cyfeiriadedd Rhywiol	2	1	24	211	46
Heterorywiol	0	0	0	185	41
Lesbiaidd/Hoyw	0	0	0	2	0
Deurywiol	0	0	0	0	0
Arall	0	0	0	0	0
Dewis peidio ag ateb/Anhysbys	2	1	24	24	5

Grŵp Ethnig	**2**	**1**	**24**	**211**	**46**
Saesneg / Cymraeg	2	1	24	184	41
Gwyn Arall	0	0	0	6	0
Asiaidd	0	0	0	0	1
Du Affricanaidd	0	0	0	1	0
Dewis peidio ag ateb/Anhysbys	0	0	0	20	4
Crefydd neu Gred	**2**	**1**	**24**	**211**	**46**
Dim Crefydd	0	0	0	97	27
Cristion (pob enwad)	0	0	0	56	9
Islamaidd	0	0	0	0	0
Bwdhaeth	0	0	0	0	0
Arall	0	0	0	21	1
Dewis peidio ag ateb/Anhysbys	2	1	24	37	9

Rhywedd/Cyflog Cyfartal

Mae'r Cyngor yn gwneud adroddiadau rheolaidd ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Mae'r holl swyddi'n cael eu gwerthuso gan ddefnyddio cynllun Gwerthuso Swyddi Cyngor Taleithiol Llundain Fwyaf (ac eithrio'r Penaethiaid Gwasanaeth sy'n cael eu prosesu trwy'r Cynllun HAY). Ni chymerir unrhyw wybodaeth bersonol am ddeilydd y swydd i ystyriaeth ar yr adeg hon. O ganlyniad, mae'r system raddio yn rhydd rhag unrhyw ragfarn anymwybodol. Darperir y graddau a'r dulliau talu ychwanegol sydd ar waith yn y Cyngor ar sail niwtral o ran y rhywiau. Felly, nid oes unrhyw anghysonderau amlwg rhwng y rhywiau yn ystod y broses adrodd.

Nid oes anghydraddoldeb o ran cyflog. Caiff pob swydd ei sgorio'n deg ac yn gyson yn unol â chynllun Cyngor Taleithiol Llundain Fwyaf. Caiff ein polisïau a'n gweithdrefnau eu monitro a'u hadolygu'n barhaus i sicrhau nad oes unrhyw rwystrau cudd neu ganfyddedig. Yn hanesyddol, gwnaeth y Cyngor, ynghyd ag Undebau Llafur, lawer o waith o ran gweithredu statws sengl a'r raddfa gyflog newydd.